Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20

## Canllaw i Etholwyr

Mehefin 2019

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6295**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20

## Canllaw i Etholwyr

Mehefin 2019

**Awduron:**
Sara Moran

# Cynnwys

**Y canllaw hwn** .......... 1

**Newidiadau ers mis Medi 2018** .......... 2

**Yn gryno, beth sydd ar gael?** .......... 3

**Ydw i'n gymwys?** .......... 4

Gwladolion yr UE .......... 5

Cyllid myfyrwyr i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn yr UE .......... 5

**Cyrsiau amser llawn – help gyda'm ffioedd dysgu** .......... 6

Prifysgol neu goleg cyhoeddus .......... 6

Prifysgol neu goleg preifat .......... 6

Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu .......... 6

Tabl 1 – Ffioedd dysgu a Benthyciadau Ffioedd Dysgu .......... 7

Personél lluoedd arfog neu'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth .......... 7

Bwrsariaeth y GIG .......... 8

Bwrsariaeth gwaith gymdeithasol .......... 9

**Cyrsiau amser llawn: help gyda'm costau byw** .......... 10

Cymorth costau byw – sut y mae'n gweithio .......... 10

Tabl 2 – Uchafswm y cymorth grant a benthyciad .......... 10

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a benthyciad .......... 11

Tabl 3 – Cyfuniad o fenthyciadau a grantiau .......... 12

Beth os ydw i'n cael budd-daliadau? .......... 12

Polisi Cymru i ddileu rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth .......... 13

**Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer cyrsiau rhan-amser?** .......... 14

Dwysedd y cwrs .......... 14

Help gyda ffioedd dysgu .......... 14

Tabl 4 – Benthyciadau Ffioedd Dysgu ar gyfer cyrsiau rhan-amser 2019/20 .......... 14

Help gyda chostau byw .......... 15

**Rwyf wedi astudio o'r blaen** .......... 16

**A allaf gael mwy o help?** .......... 17

Grantiau dibynyddion .......... 17

Grant Gofal Plant .......... 17

Lwfans Dysgu i Rieni .......... 18

Grant Oedolion Dibynnol .......... 18

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl .......... 18

Grant Teithio .......... 19

Cymorth ariannol a chymorth arall gan y brifysgol/sefydliad .......... 19

**Cael rhagor o wybodaeth** .......... 20

# Y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n bwriadu **astudio cwrs addysg uwch amser llawn neu ran-amser yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/19 ac sy'n byw yng Nghymru fel arfer.**

Gall cymorth ariannol myfyrwyr helpu gyda **ffioedd dysgu a chostau byw**.

**Cyllid Myfyrwyr Cymru** sy'n gyfrifol am asesu eich cymhwysedd ar gyfer cyllid.

Yna, mae'r **Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr** yn gwneud taliadau ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i chi (ar gyfer costau byw) ac i'r brifysgol neu'r coleg ar gyfer ffioedd dysgu.

Os gwnaethoch ddechrau astudio cyn mis Medi 2019, dylech edrych ar ganllawiau blaenorol neu gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn hynod gymhleth gyda llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd "fel arfer" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y daflen ffeithiau hon. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

*Ymwadiad: Gofynnir i'r Gwasanaeth Ymchwil yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# Newidiadau ers mis Medi 2018

Fel myfyriwr newydd ym mis Medi 2019, chi fydd yr ail flwyddyn i ddechrau ar y pecyn cymorth i fyfyrwyr israddedig newydd. Bydd y myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn mis Medi 2018 ar yr hen becyn o hyd.

**Mae'r pwyslais yn y pecyn newydd wedi newid i ganolbwyntio ar eich helpu gyda'ch costau byw** gan mai dyma'r rhwystr mwyaf i astudio yn ôl **Adroddiad Diamond (sydd wedi'i enwi ar ôl y sawl a'i lluniodd)**.

Mae cymorth ar gael o hyd i helpu gyda ffioedd dysgu, ond ar ffurf benthyciad y mae'n rhaid ei ad-dalu.






# Yn gryno, beth sydd ar gael?

Mae'r adran a ganlyn yn esbonio'n gryno pa gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser.

- Gallech gael Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £9,250 os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg cymwys yn y DU.
- I helpu gyda chostau byw gallech hefyd gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru rhwng £1,000 a £10,124 os ydych yn astudio yn Llundain - y gallech ychwanegu ato gyda Benthyciad Cynhaliaeth bach o £1,406. **Byddai hyn yn gyfanswm o £11,530 i'ch helpu gyda chostau byw**. Pe baech yn gymwys ar gyfer rhai grantiau a lwfansau eraill (gweler Adran 7) gallech gael mwy na hyn.

Yn gyffredinol, mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei gael ar gyfer costau byw yn cael ei bennu gan eich amgylchiadau - a ydych:




**Yn wahanol i'r hen system, nid yw incwm eich cartref yn effeithio ar gyfanswm y cyllid y gallwch ei gael**, ond mae'n penderfynu ar y cydbwysedd rhwng swm grant dysgu Llywodraeth Cymru (nad yw i'w ad-dalu) a benthyciad (sydd i'w ad-dalu) y gallwch ei gael.

**Mewn geiriau eraill, byddai gan fyfyrwyr ag incwm cartref is yr hawl i fwy o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a llai o fenthyciad** (nodir manylion penodol isod).

**Efallai na fyddwch yn gymwys i gael pob math o gymorth a ddangosir yma neu'r uchafsymiau a ddangosir gan ddibynnu ar amgylchiadau eich cartref a'ch man astudio.**

# Ydw i'n gymwys?

Gall y rheolau ynghylch cymhwysedd fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. **Dylech geisio cyngor arbenigol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd. Cewch ragor o wybodaeth yma**.

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar bob un o'r meini prawf a ganlyn:

1. Lle rydych yn byw (a'ch statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu eich coleg
4. Eich oedran

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth:

- Rhaid i chi fod:
  - yn wladolyn y DU neu fod â ‹statws preswylydd sefydlog› (dim cyfyngiadau ar yr hyd y cewch aros yn y DU) a
  - byw yng Nghymru fel arfer ac
  - wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.
- rhaid i'r cwrs arwain at gymhwyster cydnabyddedig (nid oes rhaid iddo fod yn radd gyntaf draddodiadol megis BA neu BSc. Mae'r meini prawf yn cynnwys HND, HNC, graddau sylfaen ac eraill);
- rhaid i'r sefydliad addysg uwch neu'r coleg gael ei ariannu drwy arian cyhoeddus;
- **fel arfer mae'n rhaid ei leoli yn y DU**;
- os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi astudio cwrs sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan Lywodraeth Cymru (gall Cyllid Myfyrwyr Cymru roi gwybod i chi am hyn);
- Er mwyn bod yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth, rhaid i chi fod dan 60 oed pan ddechreuwch eich cwrs, ond nid oes terfyn ar y Benthyciad Ffioedd Dysgu na Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.
- Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf preswyliaeth a chenedligrwydd uchod, mae rhai meini prawf eraill, megis bod yn ffoadur. Dylech edrych ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.





## Gwladolion yr UE

Os ydych yn wladolyn yr UE, yn amodol ar gymhwysedd, gallwch gael y Benthyciad Ffioedd Dysgu fel arfer. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gall gwladolion yr UE gael help gyda chostau byw. Mae'n rhaid i chi fod yn ddinesydd yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs, a oedd yn byw yn yr AEE neu'r Swistir fel arfer am y tair blynedd diwethaf, a byddwch yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru. **Bydd myfyrwyr yr UE sy'n dechrau cwrs addysg uwch yn 2018/19** yn parhau i dalu'r un ffioedd â myfyrwyr y DU a pharhau i fod yn gymwys i gael cymorth drwy gydol eu cwrs. Dylech edrych ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** neu gysylltu â'r corff os ydych yn credu bod angen help ychwanegol arnoch.

O ran ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gwnaeth y Gweinidog Addysg yng Nghymru y datganiad a ganlyn ar 31 Mai 2019:

> Bydd myfyrwyr o'r UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr Cymru, a byddant yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau o Gyllid Myfyrwyr Cymru, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd sydd eisoes yn cael eu defnyddio.
>
> Mae'r penderfyniad hwn yn parhau â'r polisi cyfredol a bydd myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth hyd nes y gorffennant eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i bob opsiwn cyllid sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr yng Nghymru y mae myfyrwyr o'r UE yn gymwys i'w gael. Mae'n cynnwys benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (i'r rheini sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ers tair blynedd), benthyciadau a grantiau cynhaliaeth (sydd ond ar gael i'r rheini sy'n byw yn y DU ers o leiaf tair blynedd), a rhai grantiau a lwfansau eraill.
>
> Nid yw'r rheolau ar gyfer myfyrwyr o'r UE a fydd yn gwneud cais am le mewn prifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i ddilyn cwrs lle rhoddir cymorth i'r myfyrwyr wedi newid. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn asesu'r ceisiadau hyn ar sail y meini prawf cymhwysedd, ac yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd myfyrwyr o'r UE, neu aelodau o'u teuluoedd, yr asesir eu bod yn gymwys i gael grantiau a/neu fenthyciadau yn parhau'n gymwys tra byddant yn astudio ar y cwrs hwnnw.
>
> Dylai myfyrwyr ymgynghori â swyddfa cyllid myfyrwyr eu prifysgol, neu wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

## Cyllid myfyrwyr i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn yr UE

Os ydych yn fyfyriwr o Gymru sy'n astudio yn yr UE, mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei thudalennau gwe yn rheolaidd ar sut y gallai ymadawiad y DU â'r UE effeithio ar eich efrydiau. Rydym yn argymell edrych ar **wefan Llywodraeth Cymru** yn rheolaidd am ddiweddariadau.

# Cyrsiau amser llawn – help gyda'm ffioedd dysgu

Mae swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar ble rydych am astudio. **Nid yw'n destun prawf modd, sy'n golygu y gall unrhyw fyfyriwr cymwys gael yr uchafswm**.

## Prifysgol neu goleg cyhoeddus

Gellir **codi ffioedd dysgu blynyddol hyd at £9,000** y flwyddyn ar fyfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus (a £9,250 mewn rhannau eraill o'r DU).

**Gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr gael Benthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am eu holl ffioedd os ydynt yn mynd i'r math hwn o brifysgol neu goleg.**

## Prifysgol neu goleg preifat

Mae dau wahaniaeth mawr os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat.

Yn gyntaf, nid oes cyfyngiadau ar y ffi dysgu y gallant ei chodi arnoch – gallent godi mwy na £9,250 os oeddent am wneud hynny.

Yn ail, er y gallent godi mwy o ffi, mae **swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael yn llai na phe baech mewn sefydliad cyhoeddus**. Mae hyn yn golygu, os byddant yn codi ffi sy'n fwy na'r uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael, **y bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hunan**.

Yn olaf, pan fyddwch yn astudio gyda'r math hwn o ddarparwr, dim ond os yw eich cwrs wedi'i ddynodi'n arbennig gan Lywodraeth Cymru y gallwch gael Benthyciad Ffioedd Dysgu. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cadw rhestr o gyrsiau, felly rydym yn argymell cysylltu â'r corff am ragor o wybodaeth.

## Symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu

Mae'r tabl isod yn dangos lefelau ffioedd dysgu a symiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu.





Tabl 1 – Ffioedd dysgu a Benthyciadau Ffioedd Dysgu

| | Uchafswm y gellir ei godi arnoch | Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael i chi (nad yw'n destun prawf modd) |
|---|---|---|
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yng Nghymru* | £9,000 | £9,000 |
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban* | £9,250 | £9,250 |
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yn y DU ar gwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru* | Dim cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei godi | £6,165 (os nad yw hyn yn talu eich ffi gyfan, mae'n rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth) |
| *Yn astudio mewn darparwr cofrestredig yn Lloegr* | £9,250 | £9,250 |

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*

Telir y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'r sefydliad lle rydych yn astudio. Mae rheolau cymhleth ynglŷn â faint y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl os byddwch yn gadael eich cwrs cyn ei gwblhau. Dylech edrych ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am hyn.

## Personél lluoedd arfog neu'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth

Os ydych yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog (personél y gwasanaeth) ar hyn o bryd neu os ydych wedi ymadael â'r gwasanaeth, efallai y bydd modd i chi hawlio Credydau Dysgu Uwch o dan y Cynllun Credydau Dysgu Uwch a/neu fanteisio ar y Cynllun Addysg Bellach/Addysg Uwch a Ariennir yn Gyhoeddus.

Mae cymhwysedd a threfniadau hawlio'n gymhleth, ac mae gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ar gael i bersonél presennol y gwasanaeth a'r rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth.

Ewch i wefan y Cynllun Credydau Dysgu Uwch i gael manylion am **hawl personél y gwasanaeth** neu **hawl y rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth** i Gredydau Dysgu Uwch. Hefyd, gweler **yma** (personél y gwasanaeth) neu yma (y rhai sydd wedi ymadael â'r gwasanaeth) i gael manylion am y Cynllun Addysg Bellach/Addysg Uwch a Ariennir yn Gyhoeddus.

Mae adran Cwestiynau Cyffredin ar gyfer y ddau gynllun sydd i'w gweld **yma**.

Mae manylion llawn am gymhwysedd a symiau i'w gweld yn JSP 822 (gweler Rhan 1) y mae'r Cynllun Credydau Dysgu Uwch yn eich cynghori i'w ddarllen cyn gwneud cais.

At ei gilydd, mae **tair haen ariannu i'r Cynllun Credydau Dysgu Uwch**.

- Yr Haen Is: ariannu hyd at 3 dyfarniad o £1,000 y flwyddyn ariannol (h.y. 3 dyfarniad £1,000 wedi'u rhannu dros 3 blynedd).
- Yr Haen Is Gyfanred: gallwch gyfuno'r uchod yn un taliad o £3,000 mewn rhai amgylchiadau.
- Yr Haen Uwch: Fel yr haen is, ond £2,000 y flwyddyn ariannol.

## Bwrsariaeth y GIG

Os ydych yn astudio cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster mewn meddygaeth, deintyddiaeth neu ofal iechyd, mae'n bosibl y gallwch gael bwrsariaeth gan GIG Cymru. Mae Bwrsariaeth y GIG yn cael ei hasesu a'i thalu gan Gynllun Bwrsariaeth y GIG, nid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd y GIG yn talu'r ffioedd dysgu'n uniongyrchol. Ni fyddwch yn cael cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru oni bai eich bod yn dewis astudio mewn man arall yn y DU lle na chynigir bwrsariaeth gofal iechyd. Dylech **gysylltu â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru** am ragor o wybodaeth.





## Bwrsariaeth gwaith gymdeithasol

Os ydych yn astudio cwrs gradd israddedig neu gwrs gradd Meistr cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol, gallwch wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Gall myfyrwyr sy'n astudio cwrs Meistr cymeradwy hefyd gael bwrsariaeth ychwanegol ar sail asesiad incwm. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, gallwch gysylltu â Thîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau Gofal Cymdeithasol Cymru drwy ddefnyddio'r manylion hyn:

Rhif ffôn: 029 2078 0698
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: ariannumyfyrwyragrantiau@gofalcymdeithasol.cymru
Linc: www.gofalcymdeithasol.cymru/gyrfaoedd/ariannu-myfyrwyr

# Cyrsiau amser llawn: help gyda'm costau byw

## Cymorth costau byw – sut y mae'n gweithio

Mae help gyda chostau byw ychydig yn fwy cymhleth na Benthyciadau Ffioedd Dysgu. Mae'n destun prawf modd sy'n golygu y **caiff incwm eich cartref ei ystyried ond dim ond at ddibenion penderfynu balans Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r benthyciad y gallwch ei gael**.

Dyma sut y mae cymorth costau byw'n gweithio:

1. Gallwch ddechrau drwy gyfrifo'r uchafswm hawl posibl sy'n dibynnu ar eich amgylchiadau – a fyddwch yn byw gyda'ch rhieni, yn byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain neu'n byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain. **Dangosir uchafswm hawliau'r rhan fwyaf o fyfyrwyr cymwys yn Nhabl 2**:

Tabl 2 – Uchafswm y cymorth grant a benthyciad

| Eich amgylchiadau | Uchafswm grant a benthyciad i fyfyrwyr amser llawn |
|---|---|
| *Yn byw gyda'ch rhieni* | £7,840 |
| *Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn rhywle y tu allan i Lundain* | £9,225 |
| *Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain* | £11,530 |

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*

2. Yna, cyfrifir swm y grant y gallech ei gael (gweler adran Grant Dysgu Llywodraeth Cymru isod).
3. Yna, gallwch ddewis ychwanegu Benthyciad Cynhaliaeth i gyrraedd yr uchafswm hawl a ddangosir yn y tabl uchod. Mae'r union gydbwysedd rhwng Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a benthyciad yn dibynnu ar incwm eich cartref, sy'n golygu, yn gyffredinol, y gallwch gael llai o grant a mwy o fenthyciad os yw incwm eich cartref yn uwch.



**Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

4. Os ydych yn gymwys i gael lwfansau ychwanegol yn seiliedig ar eich amgylchiadau penodol, caiff y rhain eu cyfrifo a'u hychwanegu at eich hawl (a all fynd â chi uwchben yr uchafswm arferol, sef £11,530 a grybwyllir yn Nhabl 2).

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a benthyciad

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £1,000. Nid yw'n destun prawf modd ac nid oes rhaid i chi ei dalu'n ôl. Bwriedir iddo fod yn gynhwysol, sy'n golygu y gall pawb ei gael oni bai am eithriadau penodol iawn.

Mae gweddill eich cymorth costau byw (ac eithrio help ychwanegol ar sail amgylchiadau penodol) yn cynnwys cyfuniad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a benthyciad.

Mae'r swm terfynol yn gyfuniad o'r rhain, gan ddibynnu ar incwm eich cartref. **Mae Tabl 3 isod yn dangos sut y mae incwm eich cartref yn effeithio ar y cyfuniad o grant a benthyciad y gallech ei hawlio**.

Mae'r colofnau grant yn Nhabl 3 yn cynnwys isafswm Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a grybwyllwyd uchod, sef £1,000.

Fel y gwelwch, hyd yn oed os oes gennych yr incwm cartref isaf, sef £18,370 neu lai, bydd arnoch angen Benthyciad Cynhaliaeth bach o hyd er mwyn i chi gael uchafswm eich hawl.

Yn yr un modd, os oes gennych yr incwm cartref uchaf, sef £59,200 neu fwy, byddwch yn dal i allu cael isafswm Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, sef £1,000.

Tabl 3 – Cyfuniad o fenthyciadau a grantiau

| Incwm y cartref | Yn byw gyda'ch rhieni | | Yn byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain | | Yn byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Grant** | **Benthyciad** | **Grant** | **Benthyciad** | **Grant** | **Benthyciad** |
| £18,370 neu lai | £6,885 | £955 | £8,100 | £1,125 | £10,124 | £1,406 |
| £25,000 | £5,930 | £1,910 | £6,947 | £2,278 | £8,643 | £2,887 |
| £35,000 | £4,488 | £3,352 | £5,208 | £4,017 | £6,408 | £5,122 |
| £45,000 | £3,047 | £4,793 | £3,469 | £5,756 | £4,174 | £7,356 |
| £59,200 neu fwy | £1,000 | £6,840 | £1,000 | £8,225 | £1,000 | £10,530 |
| **Cyfanswm** | **£7,840** | | **£9,225** | | **£11,530** | |

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*

## Beth os ydw i'n cael budd-daliadau?

Mae'n rhaid i chi bob amser ddatgan eich incwm a'ch statws fel myfyriwr i'r cyrff perthnasol os ydych yn hawlio budd-daliadau **hyd yn oed os mai'r cyfan rydych wedi'i gael yw Benthyciad Cynhaliaeth y mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl**.

Dylech hefyd gael cyngor gan ffynhonnell swyddogol cyn gwneud penderfyniadau ar faint o gymorth costau byw a gewch **oherwydd ei bod yn bosibl y cewch eich trin fel eich bod wedi cael yr holl gymorth sydd ar gael i chi mewn egwyddor, hyd yn oed os ydych yn dewis peidio â chael y cyfan**. Gallai hyn olygu y byddwch mewn caledi.

Fel arfer, ni chaiff rhywfaint o'ch incwm myfyriwr ei gyfrif at ddibenion cyfrifo eich budd-daliadau. Mae'n bosibl y caiff rhai mathau o incwm myfyriwr ar gyfer amgylchiadau penodol eu hanwybyddu'n llwyr wrth gyfrifo eich hawl i fudd-daliadau.



**Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

## Polisi Cymru i ddileu rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth

Yn flaenorol, gallai Llywodraeth Cymru ddileu **hyd at £1,500 oddi ar falans benthyciad myfyrwyr** a oedd yn cael Benthyciad Cynhaliaeth drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru pan oeddent yn dechrau ei ad-dalu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai'r cynllun yn parhau i'r rhai sy'n dechrau ym mis Medi 2019, ac y byddai'r rheoliadau'n cael eu hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cytuno arnynt maes o law. I gael rhagor o wybodaeth am Bolisi Dileu Rhannol Cymru, **mae canllawiau ar gael yma**. Rydym yn argymell siarad â Cyllid Myfyrwyr Cymru os oes gennych gwestiynau.

# Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer cyrsiau rhan-amser?

Ar gyfer cyrsiau israddedig rhan-amser, mae'r pecyn yn fersiwn pro rata o'r pecyn amser llawn uchod, h.y. gall myfyrwyr cymwys gael Benthyciad Ffioedd Dysgu pro rata ar gyfer ffioedd dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru pro rata a Benthyciad Cynhaliaeth pro rata ar gyfer help gyda chostau byw.

## Dwysedd y cwrs

Fel arfer, ni allwch gael cymorth i fyfyrwyr os yw dwysedd eich cwrs yn llai na 25 y cant.

Ystyr dwysedd y cwrs yw canran yr amser rydych yn astudio o'i gymharu â chwrs amser llawn. Dwysedd cwrs amser llawn yw 100 y cant. Fel arfer, dwysedd cyrsiau rhan-amser fydd 25, 50 neu 75 y cant. Mae rhagor o wybodaeth am ddwysedd y cwrs **yma**.

## Help gyda ffioedd dysgu

Fel cyrsiau amser llawn, mae uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch ei gael. Gellir gweld uchafsymiau'r Benthyciad Ffioedd Dysgu yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4 – Benthyciadau Ffioedd Dysgu ar gyfer cyrsiau rhan-amser 2019/20

| **Uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr rhan-amser 2019/20** | |
|---|---|
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yng Nghymru* | £2,625 |
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg cyhoeddus yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban* | £6,935 |
| *Yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban* | £4,625 |

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*





## Help gyda chostau byw

Yn debyg i fyfyrwyr amser llawn, gallwch gael help gyda'ch costau byw ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Benthyciad Cynhaliaeth. Hefyd, yn debyg i fyfyrwyr amser llawn, mae'r rhain yn destun uchafsymiau blynyddol gyda balans y benthyciad yn erbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar sail incwm eich cartref.

Mae'r union falans rhwng swm Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (nad yw i'w ad-dalu) a'r benthyciad (sydd i'w ad-dalu) yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

**Uchafswm y grantiau a benthyciadau sydd ar gael yw £5,111.25**. Mae hyn yn seiliedig ar ddwysedd cwrs 75 y cant. Bydd y swm blynyddol yn llai os yw'ch cwrs yn llai dwys (h.y. dwysedd 50 neu 25 y cant).

Dylech **gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru** i gael gwybod yr union swm y mae gennych hawl iddo.

Gallwch hefyd fod yn **gymwys i gael cymorth ychwanegol yn unol â'r manylion yn Adran 8 isod**.

# Rwyf wedi astudio o'r blaen

Ceir rheolau cymhleth ar yr hyn y mae gennych hawl iddo os ydych yn ystyried astudio cwrs sydd â lefel gyfatebol i un rydych wedi'i astudio eisoes, ni waeth a ydych wedi'i gwblhau ai peidio. Maent yn gymwys i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser.

Os ydych wedi cwblhau cymhwyster israddedig ac yn ystyried gwneud cymhwyster ôl-raddedig, mae pecyn cymorth arall ar gael i chi.

Yn gyffredinol, mae gennych hawl i gymorth ar gyfer pob blwyddyn o'ch cwrs, ynghyd â blwyddyn arall. **Os ydych wedi astudio cwrs o'r blaen, mae'n bosibl y caiff eich hawl ei lleihau yn ôl nifer y blynyddoedd rydych wedi astudio o'r blaen**. Mae hyn yn wir hyd yn oed os na wnaethoch gais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu na chymorth costau byw. **Hefyd, mae'n bosibl na fyddwch yn gymwys am gymorth os oes gennych radd anrhydedd o'r DU eisoes**.

Rhoddir enghreifftiau ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau ar gyfer cyrsiau astudio penodol. Mae'r rhain i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau mewn meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth, pensaernïaeth, gwaith cymdeithasol a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) israddedig. Bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn gymwys i gael benthyciadau ar gyfer costau byw, hyd yn oed os oes ganddynt gymhwyster cyfwerth neu lefel uwch eisoes. Hefyd, mae eithriadau os na wnaethoch gwblhau eich cwrs oherwydd **rhesymau personol cymhellol**. Bydd angen i chi roi tystiolaeth o hyn. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, gallai hyn fod ar ffurf tystiolaeth feddygol gan eich meddyg teulu, gan y gwasanaethau cymdeithasol neu gan wasanaeth cynghori myfyrwyr eich coleg neu'ch prifysgol sy'n cadarnhau eich argyfwng personol neu deuluol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.

Os ydych eisoes wedi dilyn cwrs addysg uwch ar lefel israddedig, dylech **siarad â Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn gwneud penderfyniadau a gweld a ydych yn cael eich cynnwys fel eithriad**.



**Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

# A allaf gael mwy o help?

Mae **grantiau** ychwanegol ar gael i'ch helpu os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu bod arnoch angen cymorth ychwanegol. Mae'r cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn wahanol. **Mae'r ffigurau mewn cromfachau'n cyfeirio at fyfyrwyr rhan-amser**.

**Mae'r rhain i gyd ar ben unrhyw hawl i Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a benthyciad.**

## Grantiau dibynyddion

Mae'r rhain yn grantiau i fyfyrwyr sydd â phlant neu oedolion dibynnol. Maent ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, gan ddibynnu ar ddwysedd y cwrs.

### Grant Gofal Plant

Mae'r grant hwn ar gael i fyfyrwyr i'w helpu i dalu costau gofal plant **mewn lleoliadau gofal plant cymeradwy neu gofrestredig** (mae'r darn hwn yn bwysig iawn) i blant iau na 15 oed, neu blant iau na 17 oed os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'n bosibl defnyddio'r grant i dalu am hyd at 85 y cant o'ch costau gofal plant, hyd at **£161.50 (£121.13 i fyfyrwyr rhan-amser) yr wythnos** ar gyfer un plentyn neu hyd at **£274.55 yr wythnos (£205.91 i fyfyrwyr rhan-amser)** ar gyfer dau neu ragor o blant.

Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant hwn os ydych chi neu'ch partner yn hawlio'r elfen gofal plant o'r canlynol:

- Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol;
- gofal plant di-dreth gan Cyllid a Thollau EM;
- grantiau gofal plant a ariennir gan y GIG;

Gallech ddewis cael y Grant Gofal Plant, ond dim ond pe baech yn rhoi'r gorau i'r cymorth o'r ffynonellau hyn. Dylech gael cyngor cyn gwneud penderfyniad o'r fath oherwydd y gallai effeithio ar fudd-daliadau eraill a gewch.

I fod yn gymwys ar gyfer yr hawl ran-amser, mae'n rhaid i ddwysedd eich cwrs fod o leiaf 50 y cant.

### Lwfans Dysgu i Rieni

Diben hyn yw helpu **myfyrwyr sydd â phlant dibynnol** a'ch helpu i dalu costau sy'n ymwneud â'ch cwrs. Mae'n bosibl y byddwch **yn gymwys i gael hyd at £1,557 (£1,167.75 i fyfyrwyr rhan-amser) y flwyddyn**.

Mae'r hawl i fyfyrwyr rhan-amser yn seiliedig ar ddwysedd eich cwrs (sy'n golygu y bydd yr uchafswm i fyfyrwyr rhan-amser (£1,167.75) uchod yn llai os yw dwysedd eich cwrs yn llai na 75 y cant).

Nid oes rhaid eich bod yn talu am ofal plant i fod yn gymwys i gael y grant hwn.

### Grant Oedolion Dibynnol

Diben hyn yw helpu **myfyrwyr sydd ag aelod o'r teulu y maent yn ei gefnogi'n ariannol** ond nad yw'n blentyn iddynt. Ni all eu hincwm fod yn fwy na £3,923 y flwyddyn.

**Uchafswm y grant sydd ar gael yw £2,732 (2,049 i fyfyrwyr rhan-amser) y flwyddyn**. Dim ond un grant y cewch wneud cais amdano, hyd yn oed os oes gennych fwy nag un oedolyn dibynnol. Ni all incwm yr oedolyn sy'n dibynnu arnoch fod yn fwy na £3,923 y flwyddyn.

## Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl

Mae **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn ffynhonnell arall o **gyllid sydd ar gael i fyfyrwyr ag anabledd**, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu.

Nid yw'r lwfansau'n destun prawf modd. Mae pedwar math o lwfans ar gael:

- lwfans helpwr anfeddygol - hyd at **£21,181 (£16,853 i fyfyrwyr rhan-amser)** y flwyddyn;
- lwfans cyfarpar arbenigol - hyd at **£5,657** ar gyfer y cwrs cyfan;
- lwfans cyffredinol (ar gyfer gwariant arall sy'n ymwneud â'r anabledd) - **£1,785 (£1,420 i fyfyrwyr rhan-amser)** y flwyddyn;
- lwfans teithio sy'n ymwneud â'r anabledd – costau teithio rhesymol a gyfyd o ganlyniad i gyflwr y myfyriwr.

Mae'n rhaid i chi gael Asesiad Anghenion Astudio i werthuso'r math o gymorth y mae arnoch ei angen.



**Cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig mewn Addysg Uwch 2019/20:** Canllaw i Etholwyr

## Grant Teithio

Os ydych yn mynd i **leoliad clinigol** yn y DU neu'n **astudio dramor** fel rhan o'ch cwrs, **gallech fod yn gymwys i gael grant i'ch helpu i dalu costau teithio**.

Gall y Grant Teithio helpu i dalu costau sy'n ymwneud â theithio i leoliad yr hyfforddiant clinigol yn y DU neu'r wlad y bydd yn rhaid i chi deithio iddi os byddwch yn astudio dramor. Dim ond i dalu costau teithio rhesymol y gallwch ddefnyddio'r grant teithio. Disgwylir i chi dalu'r **£303 cyntaf os yw eich incwm yn is na £59,200 (mae hyn yn cynyddu i £1,000 os yw incwm eich cartref yn fwy na £59,200).** Yn ogystal, gallwch gael help i dalu costau yswiriant meddygol, costau fisa a chostau brechiadau.

## Cymorth ariannol a chymorth arall gan y brifysgol/sefydliad

Mae pob un o brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill yn y DU) yn cynnig rhyw fath o **gymorth ariannol dewisol (mae'r cynlluniau'n defnyddio nifer fawr o enwau, ond cyfeirir atynt yn aml fel cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau).**

Maent at amrywiaeth eang o ddibenion: rhai i wobrwyo rhagoriaeth academaidd neu ragoriaeth arall, a rhai i'ch helpu i dalu eich costau byw neu eich helpu pan fydd gennych drafferth ariannol. Gellir gwneud cais am rai cyn dechrau, eraill dim ond yn ystod eich cwrs os yw eich amgylchiadau'n caniatáu hynny. Bydd rhai'n grantiau, gall eraill fod yn fenthyciadau. Bydd yn dibynnu'n llwyr ar y sefydliad lle rydych yn astudio gan fod y cynlluniau hyn wedi'u cynllunio a'u cynnal gan y sefydliadau eu hunain. **Hwy sy'n pennu'r rheolau**.

Dylech edrych ar wefan eich sefydliad i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael. Mae'n syniad da gwneud hyn cyn i chi ddechrau astudio yno rhag ofn bod cymorth ychwanegol y gallech ei gael yn ystod eich blwyddyn gyntaf. Isod, ceir rhai enghreifftiau i ddangos y mathau o gronfeydd sydd ar gael:

Mae **Prifysgol Abertawe** yn gweinyddu ystod o gronfeydd caledi i fyfyrwyr sy'n cael anhawster ariannol, gan gynnwys Bwrsariaeth Gofalwyr Myfyrwyr, Bwrsariaeth Ymadawyr Gofal a Chronfa Argyfwng i Fyfyrwyr Rhyngwladol.

Hefyd, mae gan **Brifysgol Bangor** gronfa galedi, lle y gall myfyrwyr â phlant, myfyrwyr anabl, ymadawyr gofal a myfyrwyr digartref wneud cais am gymorth ariannol.

Mae gan **Brifysgol De Cymru** Gronfa Cymorth Myfyrwyr sy'n gallu cynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n cael anhawster ariannol.

# Cael rhagor o wybodaeth

Dylech gysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael cyngor ar eich amgylchiadau penodol, a all roi gwybodaeth a chyngor swyddogol. Rhif ffôn Cyllid Myfyrwyr Cymru yw **0300 200 4050**.

Mae ganddo ystod o **adnoddau ar gyfer 2019/20** ac mae'n debygol y bydd mwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae **Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr** hefyd yn rhoi gwybodaeth am gyllid a materion ariannol myfyrwyr.